

Datganiad o Reswm

Cyflwyno'r Cyfyngiadau Parcio 'gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg' ar Gyffordd Clos Wyndham a Heol Ffaldau, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor ar gyfer Datblygiad Caitlin's Kitchen, cynigir cyflwyno cyfyngiadau parcio newydd ar Gyffordd Clos Wyndham a Heol Ffaldau, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Dangosir hyn yn Llun Rhif SL.04.25.

Er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac i gael gwared ar barcio rhwystrol yng nghyffiniau'r datblygiad, ystyrir ei bod yn briodol gweithredu'r cyfyngiadau arfaethedig at y dibenion a gynhwysir yn Adran 1 (a) (c) a (f) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn: -

(a) er mwyn osgoi perygl i bersonau neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd arall neu er mwyn atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi, neu

(c) er mwyn hwyluso taith unrhyw ddosbarth o draffig (gan gynnwys cerddwyr) ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall, neu

(f) er mwyn cadw neu wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi [neu

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn i gyflwyno cyfyngiadau parcio 'Dim Aros na Llwytho/Dadlwytho ar Unrhyw Adeg', mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae adran 122 (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor arfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984 (i'r graddau y bo'n ymarferol o ystyried y materion a bennir yn adran 122 (2)) i sicrhau symudiad cyflym, cyfleus a diogel i gerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr), a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni.

Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn a122 (2) yw: -

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i safleoedd;
2. Yr effaith ar fwynderau unrhyw ardal yr effeithir arnynt a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar y defnydd o'r ffyrdd gan gerbydau masnachol trwm er mwyn cadw neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffyrdd yn rhedeg drwyddynt;
3. Y strategaeth ansawdd aer genedlaethol a baratowyd o dan adran 80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;
4. Pwysigrwydd hwyluso taith cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra pobl sy'n defnyddio cerbydau o'r fath neu sy'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;
5. Unrhyw faterion eraill sy'n ymddangos i'r Cyngor i fod yn berthnasol.

Ar ôl ystyried dyletswydd a122, ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno'r cyfyngiadau parcio 'Dim aros na dadlwytho/llwytho ar unrhyw adeg'.

Ariennir y cynllun gan y Datblygwr.